Rhif Ymchwil Cymdeithasol:
06/2025

Dyddiad cyhoeddi:
15/01/2025

# Asesu effaith Isafbris am Alcohol ar boblogaeth ehangach o yfwyr: Adroddiad Atodiad

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-869-8

Asesu effaith Isafbris am Alcohol ar boblogaeth ehangach o yfwyr: Adroddiad Atodiad

Katy Holloway[1], Marian Buhociu[1], Shannon Murray[1], Wulf Livingston[2], Andy Perkins[3]

[1] Prifysgol De Cymru
[2] Prifysgol Wrecsam
[3] Figure 8 Consultancy Services Ltd (Dundee)

**Adroddiad Ymchwil Llawn: Holloway, Buhociu, Murray, Livingston, a Perkins (2025). Asesu Effaith Isafbris am Alcohol ar Boblogaeth Ehangach o Yfwyr: Adroddiad Atodiad. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, rhif adroddiad 06/2025. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/asesu-effaith-isafbris-am-alcohol-ar-boblogaeth-ehangach-o-yfwyr-adroddiad-terfynol**

Nid barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw'r farn hon o reidrwydd yn cyd-fynd â barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Ymchwil.IechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru

# 1. Cynnwys


1. Cynnwys ........ 1
2. Rhestr o dablau ........ 2
3. Cyflwyniad ........ 4
4. Samplu ........ 5
   Sampl astudiaeth y cyfweliadau hydredol ........ 5
   Demograffeg ........ 5
   Ansawdd bywyd ........ 10
   Patrymau yfed ........ 13
   Sampl arolwg yr holiadur trawstoriadol ........ 17
   Nodweddion demograffig ........ 17
   Ardal ddaearyddol ........ 25
   Patrymau yfed ........ 27
   Hanes triniaeth ........ 28
   Ansawdd bywyd ........ 29
5. Canfyddiadau ........ 31
   Pennod 5 – Ymwybyddiaeth o IA a'i weithrediad ........ 31
   Pennod 6 – Newidiadau mewn cymeriant alcohol ac ymddygiadau cysylltiedig ........ 32
   Pennod 7 – Newidiadau mewn gwariant cartref a phatrymau prynu alcohol ........ 33
   Pennod 8 – Newidiadau mewn defnydd o sylweddau eraill ........ 33
   Pennod 10 – Safbwyntiau ar effeithiolrwydd a dyfodol IA ........ 34
6. Amserlen cyfweliadau ........ 36
7. Pynciau'r holiadur ........ 43

# 2. Rhestr o dablau


Tabl 1.1 Nodweddion demograffig cyfweleion ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (samplau gwahanol) ........ 6
Tabl 1.2 Nodweddion demograffig pellach cyfweleion ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (samplau gwahanol) ........ 7
Tabl 1.3 Lleoliad a statws tai'r sampl cyfweliad hydredol (samplau gwahanol) ........ 8
Tabl 1.4 Math o ardal a statws tai'r sampl cyfweliad hydredol (samplau gwahanol) 9
Tabl 1.5 Statws ariannol y sampl cyfweliad hydredol (samplau gwahanol) ........ 10
Tabl 1.6 Sgorau ansawdd bywyd y cyfweleion ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (samplau gwahanol) ........ 11
Tabl 1.7 Sgorau ansawdd bywyd y cyfweleion ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (sampl gadw) ........ 13
Tabl 1.8 Patrymau yfed ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (samplau gwahanol) ........ 14
Tabl 1.9 Patrymau yfed ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (sampl gadw) 15
Tabl 1.10 Sgôr AUDIT ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (samplau gwahanol) ........ 16
Tabl 1.11 Sgôr AUDIT ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (yr un sampl) 16
Tabl 1.12 Rhyw a grŵp oedran sampl yr arolwg trawstoriadol ........ 18
Tabl 1.13 Grŵp ethnig a chefndir sampl yr arolwg trawstoriadol (geiriad newydd y cwestiwn) 19
Tabl 1.14 Grŵp ethnig a chefndir sampl yr arolwg trawstoriadol (geiriad gwreiddiol y cwestiwn) ........ 20
Tabl 1.15 Statws priodasol a nifer y plant o dan 18 oed sy'n byw gartref o sampl yr arolwg trawstoriadol ........ 21
Tabl 1.16 Nifer y plant dan 18 oed sy'n byw gartref o sampl yr arolwg trawstoriadol ........ 21
Tabl 1.17 Cymwysterau sampl yr arolwg trawstoriadol ........ 22
Tabl 1.18 Statws cyflogaeth sampl yr arolwg trawstoriadol ........ 23
Tabl 1.19 Statws ariannol sampl yr arolwg trawstoriadol ........ 24
Tabl 1.21 Awdurdod Lleol/Bwrdd Iechyd sampl yr arolwg trawstoriadol ........ 26
Tabl 1.22 Math o ardal sampl yr arolwg trawstoriadol ........ 27
Tabl 1.23 Statws tai sampl yr arolwg trawstoriadol ........ 27
Tabl 1.24 Cymeriant alcohol ymhlith sampl yr arolwg trawstoriadol ........ 28
Tabl 1.25 Hanes triniaeth cyffuriau/alcohol ymhlith sampl yr arolwg trawstoriadol 29
Tabl 1.26 Mesurau ansawdd bywyd ymhlith sampl yr arolwg trawstoriadol ........ 30
Tabl 5.1 A oeddech chi wedi clywed am IA cyn cwblhau'r arolwg hwn? ........ 31
Tabl 5.2 Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau ym mhris alcohol ers mis Mawrth 2020? ........ 31
Tabl 5.3 Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw gynhyrchion alcohol nad sydd ar gael i'w prynu mwyach? ........ 31
Tabl 6.1 Newidiadau yn faint o alcohol ac amlder yfed ers mis Mawrth 2020 ........ 32
Tabl 6.2 Newidiadau mewn ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag yfed ers mis Mawrth 2020 ........ 32
Tabl 7.1 Newid mewn fforddiadwyedd alcohol ers mis Mawrth 2020 ........ 33
Tabl 7.2 Newid mewn patrymau prynu ers mis Mawrth 2020 ........ 33
Tabl 8.1 Newidiadau mewn defnydd o sylweddau eraill ........ 33

Tabl 10.1 I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad: “Mae IA wedi bod yn effeithiol wrth leihau niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru”?... ........................................................................................................ 34
Tabl 10.2 Pa mor gryf ydych chi o blaid IA yn parhau yng Nghymru? ............... 35
Tabl 10.3 Pe bai opsiwn i newid yr isafbris uned, beth fyddech chi'n ei argymell? ........................................................................................................ 35

# 3. Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Atodiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth atodol yn ymwneud ag adroddiad terfynol Lot 4 o werthusiad Isafbris am Alcohol. Gellir cyrchu'r prif adroddiad yma: Asesu effaith Isafbris am Alcohol ar boblogaeth ehangach o yfwyr: Adroddiad Terfynol | LLYW.CYMRU. Mae'r Adroddiad Atodiad yn cynnwys: manylion pellach am y samplau o bobl a gymerodd ran yn yr astudiaeth; rhagor o fanylion am y dulliau casglu data gan gynnwys copi o'r amserlen gyfweld a rhestr o'r pynciau a drafodwyd yn yr arolwg holiadur ar-lein; a rhai tablau ychwanegol sy'n cyflwyno data meintiol yn ymwneud â Phenodau 5, 6, 7, 8 a 10 y prif adroddiad.

# 4. Samplu

Mae’r adran hon yn darparu gwybodaeth atodol am y samplu ar gyfer y llinyn hwn o werthusiad Isafbris am Alcohol sy’n canolbwyntio ar yfwyr ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru. Mae'r bennod yn nodi manylion y bobl a ffurfiodd samplau astudiaeth y cyfweliadau hydredol a gwybodaeth ar sampl yr arolwg trawstoriadol. Ceir manylion recriwtio yn y prif adroddiad.

## Sampl astudiaeth y cyfweliadau hydredol

Cyflwynir nodweddion sampl astudiaeth y cyfweliadau hydredol yn fanwl mewn adroddiadau blaenorol. Yma darperir trosolwg o nodweddion y sampl o 34 o yfwyr a gafodd eu cyfweld fel rhan o don olaf yr astudiaeth cyfweliad hydredol. At ddibenion cymharu, mae’r wybodaeth hon wedi’i chyflwyno ochr yn ochr â’r wybodaeth o’r tonnau blaenorol (gwaelodlin, dilyniant 1 a dilyniant 2). Ar gyfer newidynnau allweddol, cyflwynir newidiadau dros amser sy'n canolbwyntio ar y sampl o 15 o gyfweleion a gyfwelwyd ar y gwaelodlin ac ar bob un o'r tri phwynt dilynol.

Demograffeg

Mewn termau demograffig, roedd nodweddion yfwyr a gymerodd ran yn yr astudiaeth hydredol yn amrywio ym mhob pwynt casglu data (gweler Tabl 1.1). Ar y gwaelodlin, cyfwelwyd â mwy o fenywod na dynion ond ym mhob cam dilynol, roedd y samplau'n cynnwys mwy o ddynion na menywod. Roedd y gwahaniaethau mewn perthynas ag oedran a grŵp ethnig yn llai amlwg, er bod y ddau sampl olaf yn cynnwys mwy o bobl hŷn (45+ oed) a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig na’r ddau sampl cyntaf. Yn fras, roedd y pedair sampl yn debyg gan eu bod i gyd yn cynnwys mwy o bobl 'mewn perthynas' na phobl nad oeddent.

**Tabl 1.1 Nodweddion demograffig cyfweleion ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (samplau gwahanol)**

| | Gwaelodlin | Cyfweliad dilynol 1 | Cyfweliad dilynol 2 | Cyfweliad dilynol 3 |
|---|---|---|---|---|
| Rhyw | | | | |
| Gwrywaidd | 17 (42%) | 17 (53%) | 28 (64%) | 20 (59%) |
| Benywaidd | 24 (59%) | 15 (47%) | 16 (36%) | 14 (41%) |
| Oedran | | | | |
| Dan 45 | 20 (49%) | 16 (50%) | 19 (43%) | 15 (44%) |
| 45 ac yn hŷn | 21 (51%) | 16 (50%) | 25 (57%) | 19 (56%) |
| Grŵp ethnig [1] | | | | |
| Gwyn Prydeinig | 38 (93%) | 30 (97%) | 37 (84%) | 31 (91%) |
| Gwyn Arall | 3 (7%) | 1 (3%) | 3 (7%) | 2 (6%) |
| Cymysg [2] | - | - | 1 (2%) | - |
| Asiaidd - Pacistanaidd | - | - | 1 (2%) | - |
| Du - Affricanaidd | - | - | 2 (4%) | 1 (3%) |
| Statws priodasol | | | | |
| Mewn perthynas | 25 (61%) | 22 (69%) | 23 (52%) | 22 (65%) |
| Ddim mewn perthynas | 16 (39%) | 10 (31%) | 21 (48%) | 12 (35%) |
| | | | | |
| **CYFANSWM** | **41 (100%)** | **32 (100%)** | **44 (100%)** | **34 (100%)** |

Nodiadau: [1] Un ar goll. [2] Gwyn a Du Affricanaidd.

Yn unol â'r tonnau blaenorol, nid oedd gan y rhan fwyaf o'r sampl dilynol unrhyw blant o dan 18 oed yn byw yn eu cartref ac roedd gan y rhan fwyaf gymwysterau Lefel 5[1] neu uwch (gweler Tabl 1.2).

[1] Ystyr lefelau cymhwyster (gov.uk).

**Tabl 1.2 Nodweddion demograffig pellach cyfweleion ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (samplau gwahanol)**

| | Gwaelodlin | Cyfweliad dilynol 1 | Cyfweliad dilynol 2 | Cyfweliad dilynol 3 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| **Cymhwyster uchaf** | | | | |
| Lefel 7+ | 4 (10%) | 4 (10%) | 10 (24%) | 11 (27%) |
| Lefel 5-6 | 15 (37%) | 15 (37%) | 10 (24%) | 7 (17%) |
| Lefel 3-4 | 9 (22%) | 7 (17%) | 11 (27%) | 8 (20%) |
| Lefel 1-2 | 8 (20%) | 3 (7%) | 4 (10%) | 7 (17%) |
| Lefel mynediad/Dim cymwysterau | 3 (7%) | 1 (2%) | 8 (20%) | - |
| | | | | |
| **Statws cyflogaeth** | | | | |
| Arall | 2 (5%) | 1 (3%) | - | - |
| Disgybl/myfyriwr/Addysg amser llawn | 8 (20%) | 8 (20%) | 4 (10%) | - |
| Wedi ymddeol | 7 (17%) | 6 (15%) | 7 (17%) | 6 (15%) |
| Gofalu am y cartref/teulu | 1 (2%) | 1 (2%) | 1 (2%) | 1 (2%) |
| Di-waith ond ddim yn chwilio am waith | 7 (17%) | 3 (7%) | 14 (34%) | 8 (20%) |
| Di-waith ond yn chwilio am waith | 2 (5%) | - | 2 (5%) | 2 (5%) |
| Hunangyflogedig | - | - | - | 2 (5%) |
| Cyflogedig rhan amser (<30h) | 5 (12%) | 5 (12%) | 3 (7%) | 2 (5%) |
| Cyflogedig amser llawn (30+h) | 9 (22%) | 7 (17%) | 12 (29%) | 13 (32%) |
| | | | | |
| **CYFANSWM** | **41 (100%)** | **32 (100%)** | **44 (100%)** | **34 (100%)** |

Fel gyda'r tonnau blaenorol, roedd y sampl dilynol hwn yn cynnwys yfwyr a oedd yn byw mewn amrywiaeth (n=11) o ardaloedd Awdurdodau Lleol gwahanol gyda bron i hanner yn byw yng Nghaerdydd (n=15), ac yna Powys (n=4), Wrecsam (n=4) a Rhondda Cynon Taf (n=4)[2] (gweler Tabl 1.3). Roedd y sampl hefyd yn cynnwys pobl sy'n byw mewn amrywiaeth o wahanol fathau o ardal gan gynnwys ardaloedd trefol (n=17), ardaloedd maestrefol (n=5), ac ardaloedd mwy gwledig (n=12) (gweler Tabl 1.4)[3].

[2] Mae'r gor-gynrychiolaeth o yfwyr o Gaerdydd yn adlewyrchu, yn rhannol, y ffaith bod sampl yr hostel wedi'i recriwtio'n gyfan gwbl o'r ardal hon.

[3] Cafodd cyfran sylweddol (9/22) o'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol eu recriwtio drwy elusen digartrefedd trydydd sector. Rhaid felly i unrhyw gymariaethau ar draws mathau o ardal gael eu gwneud gyda hyn mewn golwg.

**Tabl 1.3 Lleoliad a statws tai'r sampl cyfweliad hydredol (samplau gwahanol)**

| | Gwaelodlin | Cyfweliad dilynol 1 | Cyfweliad dilynol 2 | Cyfweliad dilynol 3 |
|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol/Ardal Bwrdd Iechyd** | | | | |
| Wrecsam – BCUHB | 5 (12%) | 5 (16%) | 4 (9%) | 4 (12%) |
| Bro Morgannwg – CVUHB | 2 (5%) | 2 (5%) | - | 1 (2%) |
| Torfaen – ABUHB | 1 (2%) | 1 (2%) | 1 (2%) | 1 (2%) |
| Rhondda Cynon Taf – CTHB | 5 (12%) | 5 (12%) | 4 (10%) | 4 (10%) |
| Powys – PTHB | 4 (10%) | 4 (10%) | 4 (10%) | 4 (10%) |
| Casnewydd – ABUHB | 4 (10%) | 1 (2%) | 1 (2%) | 1 (2%) |
| Sir Fynwy – ABUHB | 2 (5%) | 2 (5%) | 2 (5%) | 1 (2%) |
| Sir y Fflint – BCUHB | 1 (2%) | 1 (2%) | 1 (2%) | - |
| Conwy – BCUHB | 1 (2%) | - | - | 1 (2%) |
| Ceredigion - HDHB | 2 (5%) | 2 (5%) | 3 (7%) | - |
| Sir Gâr - HDHB | 2 (5%) | 1 (2%) | 1 (2%) | - |
| Caerdydd – CVUHB | 11 (27%) | 8 (20%) | 21 (51%) | 15 (37%) |
| Caerffili - ABUHB | 1 (2%) | - | 1 (2%) | 1 (2%) |
| Pen-y-bont ar Ogwr | - | - | 1 (2%) | 1 (2%) |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **41 (100%)** | **32 (100%)** | **44 (100%)** | **34 (100%)** |

Nodiadau: ABUHB (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan); BCUHB (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr); CTHB (Bwrdd Iechyd Cwm Taf); CVUHTB (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro); HDUHB (Bwrdd Iechyd Hywel Dda); PTHB (Bwrdd Iechyd Addysgu Powys).

**Tabl 1.4 Math o ardal a statws tai'r sampl cyfweliad hydredol (samplau gwahanol)**

| | Gwaelodlin | Cyfweliad dilynol 1 | Cyfweliad dilynol 2 | Cyfweliad dilynol 3 |
|---|---|---|---|---|
| **Math o ardal** | | | | |
| Gwledig | 17 (41%) | 15 (47%) | 16 (36%) | 12 (35%) |
| Maestrefol | 8 (20%) | 7 (17%) | 6 (15%) | 5 (12%) |
| Trefol | 16 (39%) | 10 (24%) | 21 (51%) | 17 (41%) |
| | | | | |
| **Statws tai** | | | | |
| Digartref ar y stryd | 1 (2%) | - | 2 (5%) | 1 (3%) |
| Hostel/llety arall â chymorth | 8 (20%) | 4 (10%) | 10 (24%) | 7 (17%) |
| Yn byw gyda theulu/ffrindiau | 4 (10%) | 3 (7%) | 1 (2%) | - |
| Rhentu (tŷ cymdeithasol, cyngor) | 1 (2%) | 1 (2%) | 4 (10%) | 1 (2%) |
| Rhentu (preifat) | 8 (20%) | 7 (17%) | 7 (17%) | 6 (15%) |
| Perchennog tŷ (morgais) | 10 (24%) | 8 (20%) | 11 (27%) | 9 (22%) |
| Perchennog tŷ (dim morgais) | 9 (22%) | 9 (22%) | 9 (22%) | 10 (24%) |
| | | | | |
| **CYFANSWM** | **41 (100%)** | **32 (100%)** | **44 (100%)** | **34 (100%)** |

Yn unol â thonnau blaenorol, nid oedd y rhan fwyaf o'r cyfweleion yn derbyn budd-daliadau ar adeg y cyfweliad (gweler Tabl 1.5). Roedd y sampl hefyd yn gymysg o ran swm incwm y cartref, gydag 11 yn nodi incwm o ddim mwy na £10,400 a saith yn nodi incwm o fwy na £52,000 y flwyddyn.

**Tabl 1.5 Statws ariannol y sampl cyfweliad hydredol (samplau gwahanol)**

| | Gwaelodlin | Cyfweliad dilynol 1 | Cyfweliad dilynol 2 | Cyfweliad dilynol 3 |
|---|---|---|---|---|
| **Ydych chi'n derbyn unrhyw fudd-daliadau'r wladwriaeth ar hyn o bryd** | | | | |
| Credyd Cynhwysol | 6 (15%) | 1 (3%) | 9 (20%) | 6 (18%) |
| Budd-daliadau eraill | 6 (15%) | 3 (7%) | 7 (17%) | 6 (15%) |
| Nac ydw | 27 (66%) | 26 (63%) | 28 (68%) | 22 (54%) |
| Gwell gen i beidio â dweud | 2 (5%) | 2 (5%) | - | - |
| | | | | |
| **Incwm cartref** | | | | |
| Gwell gen i beidio â dweud | 4 (10%) | 3 (9%) | 2 (5%) | - |
| £52,000 y flwyddyn neu fwy | 5 (12%) | 5 (12%) | 9 (22%) | 7 (17%) |
| £36,400-£51,999 | 1 (2%) | 1 (2%) | 2 (5%) | 5 (12%) |
| £26,000-£36,399 | 9 (22%) | 7 (17%) | 7 (17%) | 8 (20%) |
| £20,800-£25,999 | 1 (2%) | 1 (2%) | 4 (10%) | 2 (5%) |
| £15,600-£20,799 | 6 (15%) | 5 (12%) | 6 (15%) | 1 (2%) |
| £10,400-£15,599 | 4 (10%) | 4 (10%) | 2 (5%) | - |
| £5,200-£10,399 | 7 (17%) | 4 (10%) | 9 (22%) | 3 (7%) |
| Hyd at £5,199 | 3 (7%) | 1 (2%) | 3 (7%) | 8 (20%) |
| | | | | |
| **CYFANSWM** | **41 (100%)** | **32 (100%)** | **44 (100%)** | **34 (100%)** |

Ansawdd bywyd

Pan ofynnwyd pa mor dda yr oeddent yn ymdopi’n ariannol ar adeg y cyfweliad, dywedodd y rhan fwyaf o’r cyfweleion a ymatebodd eu bod yn ymdopi naill ai’n eithaf da neu’n dda iawn, ond roedd nifer fach nad oedd yn ymdopi’n dda neu ddim yn ymdopi’n dda o gwbl (gweler Tabl 1.6)[4]. O gymharu â’r gwaelodlin, dywedodd mwy o gyfweleion eu bod yn ymdopi'n dda iawn ar y trydydd pwynt dilynol (26% o gymharu â 10%).

Yn yr un modd â'r archwiliadau blaenorol, adroddodd y rhan fwyaf o'r cyfweleion lefelau uchel o foddhad â'u bywydau ac roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod y pethau a wnaethant yn eu bywydau yn werth chweil (gweler Tabl 1.6). At hynny, nododd y mwyafrif lefelau uchel o hapusrwydd a nododd y rhan fwyaf lefelau isel o orbryder.

[4] Hysbyswyd cyfweleion cyn y cyfweliad nad oedd unrhyw rwymedigaeth i ateb cwestiynau os nad oeddent yn dymuno gwneud hynny. Cawsant eu hatgoffa o hyn cyn gofyn unrhyw gwestiynau sensitif (e.e. am ansawdd eu bywyd a statws ariannol). Mewn rhai achosion, yn seiliedig ar atebion y cyfwelai i gwestiynau blaenorol, ni ofynnwyd cwestiynau sensitif fel y rhain. Dylid dehongli'r canfyddiadau felly gan gadw hyn mewn cof.

I'r rhai a gymerodd ran yn y gwaelodlin a phob un o'r tri chyfweliad dilynol, roedd yn bosibl edrych ar newidiadau dros amser. Mewn perthynas â pha mor dda yr oeddent yn ymdopi'n ariannol, adroddodd naw o'r cyfweleion newidiadau rhwng y gwaelodlin a'r trydydd cyfweliad dilynol. I chwech o'r cyfweleion hyn, roedd y newid mewn cyfeiriad cadarnhaol (e.e. o ymdopi'n eithaf da i ymdopi'n dda iawn) ond i dri roedd yn newid er gwaeth (e.e. o ymdopi'n eithaf da i ddim yn ymdopi'n dda o gwbl).

**Tabl 1.6 Sgorau ansawdd bywyd y cyfweleion ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (samplau gwahanol)**

| | Gwaelodlin | Cyfweliad dilynol 1 | Cyfweliad dilynol 2 | Cyfweliad dilynol 3 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Yn ymdopi'n dda iawn | 4 (10%) | 10 (33%) | 11 (25%) | 8 (26%) |
| Yn ymdopi'n eithaf da | 19 (46%) | 11 (37%) | 14 (32%) | 16 (52%) |
| Ddim yn ymdopi'n dda na ddim cystal | 7 (17%) | 6 (20%) | 7 (16%) | 6 (19%) |
| Ddim yn ymdopi'n dda | 6 (15%) | 1 (3%) | 5 (11%) | - |
| Ddim yn ymdopi'n dda o gwbl | 5 (12%) | 2 (7%) | 7 (16%) | 1 (3%) |
| | | | | |
| Yn fodlon ar fy mywyd | | | | |
| Isel | 5 (13%) | 1 (4%) | 3 (7%) | - |
| Canolig | 5 (13%) | 7 (25%) | 12 (29%) | 6 (21%) |
| Uchel | 29 (74%) | 20 (71%) | 26 (63%) | 22 (79%) |
| | | | | |
| Mae'r pethau rwy'n eu gwneud yn werth chweil | | | | |
| Isel | 7 (18%) | 1 (4%) | 6 (15%) | - |
| Canolig | 3 (8%) | 3 (11%) | 6 (15%) | 4 (14%) |
| Uchel | 29 (74%) | 24 (86%) | 28 (70%) | 24 (86%) |
| | | | | |
| Hapusrwydd ddoe | | | | |
| Isel | 4 (10%) | 1 (4%) | 3 (8%) | 2 (7%) |
| Canolig | 9 (23%) | 5 (18%) | 12 (30%) | 1 (4%) |
| Uchel | 26 (67%) | 22 (79%) | 25 (63%) | 25 (89%) |
| | | | | |
| Gorbryder ddoe [1] | | | | |
| Isel | 19 (49%) | 19 (68%) | 23 (58%) | 21 (75%) |
| Canolig | 8 (21%) | 8 (29%) | 13 (33%) | 4 (14%) |
| Uchel | 12 (30%) | 1 (4%) | 4 (10%) | 3 (11%) |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **41 (100%)** | **32 (100%)** | **44 (100%)** | **34 (100%)** |

Nodiadau: Rhai achosion coll. [1] Er bod sgorau isel ar y cwestiynau eraill yn negyddol, mae sgôr isel mewn perthynas â phryder yn beth cadarnhaol.

Arhosodd y sgorau ar y mesurau ansawdd bywyd yn sefydlog neu maen nhw wedi gwella rhwng y gwaelodlin a'r trydydd cyfweliad dilynol ar gyfer y rhan fwyaf o'r sampl o gyfweleion (gweler Tabl 1.7). Fodd bynnag, nododd grŵp bach fod boddhad cyffredinol â bywyd wedi gwaethygu (n=2), gan deimlo bod y pethau y maent yn eu gwneud yn werth chweil (n=1), hapusrwydd (n=2), a phryder (n=2) yn y cyfweliadau dilynol.

**Tabl 1.7 Sgorau ansawdd bywyd y cyfweleion ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (sampl gadw)**

| | Gwaelodlin | Cyfweliad dilynol 1 | Cyfweliad dilynol 2 | Cyfweliad dilynol 3 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Yn ymdopi'n dda iawn | 4 (27%) | 8 (53%) | 6 (40%) | 6 (40%) |
| Yn ymdopi'n eithaf da | 6 (40%) | 4 (27%) | 6 (40%) | 6 (40%) |
| Ddim yn ymdopi'n dda na ddim cystal | 3 (20%) | 3 (20%) | 2 (13%) | 3 (20%) |
| Ddim yn ymdopi'n dda | 2 (13%) | - | 1 (7%) | - |
| Ddim yn ymdopi'n dda o gwbl | - | - | - | - |
| | | | | |
| Yn fodlon ar fy mywyd | | | | |
| Isel | - | 1 (7%) | - | - |
| Canolig | - | 3 (20%) | 2 (13%) | 2 (13%) |
| Uchel | 15 (100%) | 11 (73%) | 13 (87%) | 13 (87%) |
| | | | | |
| Mae'r pethau rwy'n eu gwneud yn werth chweil | | | | |
| Isel | - | 1 (7%) | - | - |
| Canolig | 1 (7%) | 1 (7%) | 2 (13%) | 1 (7%) |
| Uchel | 14 (93%) | 13 (87%) | 13 (87%) | 14 (93%) |
| | | | | |
| Hapusrwydd ddoe | | | | |
| Isel | - | - | - | 2 (13%) |
| Canolig | 4 (27%) | 2 (13%) | 2 (13%) | - |
| Uchel | 11 (73%) | 13 (87%) | 13 (87%) | 13 (87%) |
| | | | | |
| Gorbryder ddoe [1] | | | | |
| Isel | 7 (47%) | 10 (67%) | 12 (80%) | 12 (80%) |
| Canolig | 4 (27%) | 4 (27%) | 3 (20%) | - |
| Uchel | 4 (27%) | 1 (7%) | - | 3 (20%) |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **15 (100%)** | **15 (100%)** | **15 (100%)** | **15 (100%)** |

Nodiadau: Rhai achosion coll. [1] Er bod sgorau isel ar y cwestiynau eraill yn negyddol, mae sgôr isel mewn perthynas â phryder yn beth cadarnhaol.

Patrymau yfed

Fel gyda'r gwaelodlin a'r ddau sampl dilynol cyntaf, roedd y trydydd sampl dilynol yn amrywio o ran amlder a faint o alcohol a yfwyd bob wythnos (gweler Tabl 1.8). O ran amlder, roedd y sampl yn cynnwys 18 o yfwyr a oedd yn yfed o leiaf ddwywaith yr wythnos a 12 nad oedd yn yfed mwy nag unwaith yr wythnos. O ran y meintiau a yfwyd ar achlysuron yfed arferol, roedd y sampl yn cynnwys naw a oedd yn yfed o leiaf 10 uned a dau nad oedd yn yfed mwy na dwy uned fesul digwyddiad yfed.

Mae’n bwysig nodi bod y sampl dilynol yn cynnwys pedwar cyfwelai a oedd wedi rhoi’r gorau i yfed yn y cyfnod ers cyflwyno IA.

**Tabl 1.8 Patrymau yfed ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (samplau gwahanol)**

| | Gwaelodlin | Cyfweliad dilynol 1 | Cyfweliad dilynol 2 | Cyfweliad dilynol 3 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Pa mor aml ydych chi'n yfed alcohol? | | | | |
| Byth | - | - | 4 (9%) | 3 (9%) |
| Unwaith y mis neu lai | 5 (12%) | 3 (9%) | 6 (14%) | 4 (12%) |
| 2 i 4 gwaith y mis | 8 (20%) | 11 (34%) | 6 (14%) | 8 (24%) |
| 2 i 3 gwaith yr wythnos | 11 (27%) | 4 (13%) | 7 (16%) | 6 (18%) |
| 4 gwaith neu fwy yr wythnos [1, 2] | 17 (42%) | 14 (44%) | 21 (48%) | 12 (36%) |
| | | | | |
| Sawl uned ydych chi'n ei yfed ar ddiwrnod arferol o yfed? | | | | |
| 0 unedau | - | - | 4 (9%) | 3 (9%) |
| 1 i 2 uned | 9 (22%) | 6 (19%) | 9 (20%) | 3 (9%) |
| 3 i 4 uned | 6 (15%) | 9 (28%) | 8 (18%) | 8 (24%) |
| 5 i 6 uned | 7 (17%) | 5 (16%) | 5 (11%) | 5 (15%) |
| 7 i 9 uned | 7 (17%) | 4 (13%) | 4 (9%) | 5 (15%) |
| 10 uned neu fwy [1, 2] | 12 (29%) | 8 (25%) | 14 (32%) | 9 (27%) |
| | | | | |
| **Cyfanswm [1]** | **41 (100%)** | **32 (100%)** | **44 (100%)** | **34 (100%)** |

Nodiadau: Rhai achosion coll. [1] gan gynnwys y cyfwelai amgen yn y cyfweliad dilynol cyntaf a oedd wedi bod yn yfwr dibynnol ers blynyddoedd lawer ac y cafodd atebion i'r cwestiynau hyn ar y gwaelodlin eu hallosod o drawsgrifiad y cyfweliad. [2] gan gynnwys pedwar cyfwelai newydd o 'sampl yr hostel' y cafodd atebion i'r cwestiynau hyn eu hallosod o drawsgrifiad y cyfweliadau.

O'r 15 yfwr a gyfwelwyd ar y pedwar achlysur, roedd dau wedi rhoi'r gorau i yfed alcohol yn y cyfnod yn dilyn y cyfweliad gwaelodlin (gweler Tabl 1.9). Newidiodd un o’r yfwyr hyn o yfed bedair gwaith neu fwy yr wythnos ar y gwaelodlin i ymatal yn llwyr erbyn yr ail gyfweliad dilynol. Lleihaodd y llall eu hamlder o yfed yn fisol neu lai ar y gwaelodlin i beidio ag yfed o gwbl erbyn y trydydd cyfweliad dilynol. O'r rhai a barhaodd i yfed (n=13), ni wnaeth y rhan fwyaf unrhyw newidiadau o ran amlder yr alcohol a yfwyd (n=8). O'r rhai a wnaeth newidiadau, nododd dau gynnydd mewn amlder tra nododd tri ostyngiad. Mewn perthynas â faint o alcohol a yfwyd, adroddodd wyth o’r cyfweleion gynnydd yn nifer yr unedau a yfwyd ar ddiwrnod yfed arferol, nododd dau ostyngiad, a nododd pump nad oedd unrhyw newid.

**Tabl 1.9 Patrymau yfed ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (sampl gadw)**

| | Gwaelodlin | Cyfweliad dilynol 1 | Cyfweliad dilynol 2 | Cyfweliad dilynol 3 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Pa mor aml ydych chi'n yfed alcohol? | | | | |
| Byth | - | - | 1 (7%) | 2 (13%) |
| Unwaith y mis neu lai | 4 (27%) | 2 (13%) | 3 (20%) | 3 (20%) |
| 2 i 4 gwaith y mis | 2 (13%) | 6 (40%) | 4 (27%) | 4 (27%) |
| 2 i 3 gwaith yr wythnos | 5 (33%) | 1 (7%) | 1 (7%) | 2 (13%) |
| 4+ gwaith yr wythnos | 4 (27%) | 6 (40%) | 6 (40%) | 4 (27%) |
| | | | | |
| Sawl uned ydych chi'n ei yfed ar ddiwrnod arferol pan fyddwch chi'n yfed alcohol? | | | | |
| 0 i 2 uned | 5 (33%) | 5 (33%) | 6 (40%) | 2 (13%) |
| 3 i 4 uned | 3 (20%) | 5 (33%) | 5 (33%) | 5 (33%) |
| 5 i 6 uned | 3 (20%) | 2 (13%) | 2 (13%) | 4 (27%) |
| 7 i 9 uned | 3 (20%) | 1 (7%) | 1 (7%) | 2 (13%) |
| 10 uned neu fwy | 1 (7%) | 2 (13%) | 1 (7%) | 2 (13%) |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **15 (100%)** | **15 (100%)** | **15 (100%)** | **15 (100%)** |

Roedd yn bosibl cyfrifo sgôr AUDIT ar gyfer pob un o'r 34 o gyfweleion yn y 42 mis dilynol (gweler Tabl 1.10). Rhannwyd y sampl yn gyfartal o ran nifer y bobl a oedd yn yfed o fewn canllawiau'r llywodraeth (h.y. yfwyr cymedrol) a'r rhai a oedd yn rhagori arnynt (h.y. yfwyr peryglus a niweidiol). Roedd gan un deg tri o'r cyfweleion sgôr a oedd yn nodi eu bod yn yfed ar lefelau niweidiol, sy'n nifer tebyg i'r sampl gwaelodlin ond yn ddwbl y ffigur o'r cyfweliad dilynol cyntaf[5]. Fodd bynnag, yn yr ail a'r trydydd cyfweliad dilynol, roedd llawer mwy o yfwyr risg is nag ar y gwaelodlin. Ymddengys bod y gwahaniaeth hwn oherwydd cyfuniad o ffactorau gan gynnwys nodweddion y sampl newydd a newidiadau mewn patrymau yfed ymhlith y sampl gwreiddiol.

[5] Roedd y nifer cymharol fach o yfwyr niweidiol yn y cyfweliad dilynol cyntaf yn bennaf oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod cloi, a rwystrodd y tîm gwerthuso rhag cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb o fewn safleoedd mudiadau trydydd sector.

**Tabl 1.10 Sgôr AUDIT ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (samplau gwahanol)**

| | Gwaelodlin | Cyfweliad dilynol 1 | Cyfweliad dilynol 2 | Cyfweliad dilynol 3 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Risg is/Cymedrol [1] | 13 (34%) | 13 (41%) | 22 (50%) | 18 (53%) |
| Risg gynyddol/Peryglus | 13 (34%) | 13 (41%) | 9 (21%) | 6 (18%) |
| Risg uchel/Niweidiol [2] | 12 (32%) | 6 (19%) | 13 (29%) | 10 (29%) |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **41 (100%)** | **32 (100%)** | **44 (100%)** | **34 (100%)** |

Nodiadau: Rhai achosion coll. [1] Yn cynnwys tri yfwr a oedd wedi rhoi'r gorau i yfed yn y cyfnod ers i IA (un yng nghyfweliad dilynol 2 a dau yng nghyfweliad dilynol 3) gael ei roi ar waith ac un yfwr na chwblhaodd AUDIT ond yr oedd yn amlwg o'i ymatebion yn y cyfweliadau, eu bod yn dal i fod yn yfwr risg isel. [2] Yn cynnwys pedwar cyfwelai yn y cyfweliad dilynol cyntaf a'r trydydd cyfweliad dilynol na chwblhaodd AUDIT ond yr oedd yn amlwg o'u hymatebion yn y cyfweliadau eu bod yn yfwyr niweidiol.

O ran newidiadau dros amser, roedd yn ddiddorol nodi bod y rhan fwyaf o'r sgorau AUDIT wedi aros yn sefydlog rhwng y gwaelodlin a'r trydydd cyfweliad dilynol (n=10) a bod y nifer fach o newidiadau (n=7) gan amlaf mewn cyfeiriad cadarnhaol, llai niweidiol (n=4), yn hytrach nag i gyfeiriad mwy niweidiol (n=1) (gweler Tabl 1.11).

**Tabl 1.11 Sgôr AUDIT ar y gwaelodlin ac yn y cyfweliadau dilynol (yr un sampl)**

| | Gwaelodlin | Cyfweliad dilynol 1 | Cyfweliad dilynol 2 | Cyfweliad dilynol 3 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Risg is/Cymedrol [1] | 8 (53%) | 9 (60%) | 10 (67%) | 10 (67%) |
| Risg gynyddol/Peryglus | 4 (27%) | 5 (33%) | 5 (33%) | 3 (20%) |
| Risg uchel/Niweidiol | 3 (20%) | 1 (7%) | - | 2 (13%) |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **15 (100%)** | **15 (100%)** | **15 (100%)** | **15 (100%)** |

Nodiadau: Rhai achosion coll. [1] Yn cynnwys dau yfwr a oedd wedi rhoi'r gorau i yfed yn y cyfnod ers rhoi IA ar waith.

## Sampl arolwg yr holiadur trawstoriadol

Cyflwynir nodweddion y sawl a ymatebodd i'r arolwg isod. At ddibenion cymharu, cyflwynir nodweddion sampl y gwaelodlin ochr yn ochr â nodweddion sampl yr ail a’r trydydd cyfweliad dilynol (DS ni chafodd yr arolwg ei gynnwys yn y pwynt dilynol cyntaf ar anterth pandemig COVID-19). Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r tri sampl yr un peth (h.y. maent yn cynnwys unigolion gwahanol) ac y gall unrhyw wahaniaethau yn y canfyddiadau fod o ganlyniad i wahanol nodweddion y sampl yn hytrach nag unrhyw ffactor allanol megis IA.

Nodweddion demograffig

### Rhyw, oedran, grŵp ethnig, statws priodasol

Yng nghyfweliad dilynol 3, cwblhaodd mwy o ddynion na menywod yr arolwg ar-lein (52% o gymharu â 45%) (gweler Tabl 1.12). Disgrifiodd pedwar ymatebwr eu hunain fel anneuaidd/trydydd rhyw ac roedd yn well gan un arall beidio â nodi eu rhyw. Mae'n werth nodi bod cyfran y dynion a gwblhaodd yr arolwg dilynol[6] yn llawer uwch na'r gwaelodlin (24%) a'r nifer yng nghyfweliad dilynol 2 (38%).

Fel sampl y cyfweliadau, roedd sampl yr arolwg yn amrywiol o ran oedran gyda bron i ddau o bob pump (38%) o ymatebwyr 45 oed neu hŷn, ychydig dros chwarter (28%) rhwng 35 a 44 oed, ychydig llai na chwarter ( 23%) rhwng 25 a 34 oed, a 9% rhwng 18 a 24 oed (gweler Tabl 1.12). Roedd y dosbarthiad oedran hwn yn weddol debyg i’r dosbarthiad oedran yn y samplau arolwg blaenorol ac eithrio o bosibl pobl iau o dan 25 oed.

[6] Roedd nifer y dynion a gymerodd ran yn yr astudiaeth gyfweld hefyd yn uwch ar yr ail bwynt dilynol nag ar y gwaelodlin (64% o gymharu â 42%).

**Tabl 1.12 Rhyw a grŵp oedran sampl yr arolwg trawstoriadol**

| | Gwaelodlin | | Cyfweliad dilynol 2 | | Cyfweliad dilynol 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| Rhyw | | | | | | |
| Benywaidd | 135 | 75% | 113 | 61% | 82 | 45% |
| Gwrywaidd | 43 | 24% | 70 | 38% | 94 | 52% |
| Anneuaidd/trydydd rhyw/arall | 1 | 1% | 2 | 1% | 4 | 2% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 0 | 0% | 1 | <1% | 1 | 1% |
| | | | | | | |
| **Oedran** | | | | | | |
| 75+ | 1 | 1% | 0 | 0% | 2 | 1% |
| 65-74 | 3 | 2% | 6 | 3% | 11 | 6% |
| 55-64 | 8 | 5% | 17 | 9% | 16 | 9% |
| 45-54 | 26 | 15% | 40 | 22% | 40 | 22% |
| 35-44 | 35 | 20% | 50 | 27% | 50 | 28% |
| 25-34 | 50 | 28% | 44 | 24% | 41 | 23% |
| 20-24 | 40 | 23% | 23 | 12% | 15 | 8% |
| 18-19 | 15 | 8% | 4 | 2% | 2 | 1% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 0 | 0% | 2 | 1% | 2 | 1% |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **179** | **100%** | **186** | **100%** | **181** | **100%** |

Nodiadau: Rhai achosion coll.

Yn wahanol i sampl y cyfweliad, roedd sampl yr arolwg yn cynnwys ymatebwyr o ystod o grwpiau ethnig (gweler Tabl 1.13 a Thabl 1.14)[7]. Fodd bynnag, ni ellir ystyried bod y sampl yn amrywiol yn nhermau grwpiau ethnig gan fod y mwyafrif (90%) wedi diffinio eu hunain fel Gwyn - Saesneg, Albanaidd, Cymraeg, Gogledd Iwerddon, Prydeinig. Serch hynny, roedd y sampl yn cynnwys nifer fach o ymatebwyr o sawl grŵp ethnig arall gan gynnwys Gwyddelig, Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig, Roma, Gwyn a Du Caribïaidd, Gwyn ac Asiaidd, cefndir Affricanaidd a Tsieineaidd.

[7] Diweddarwyd y categorïau grwpiau ethnig a ddefnyddiwyd yng ngham olaf yr arolwg ac felly maent yn wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y tonnau blaenorol. Cyflwynir y canlyniadau o bob ton mewn tablau ar wahân (h.y. Tabl 1.13 ac 1.14).

**Tabl 1.13 Grŵp ethnig a chefndir sampl yr arolwg trawstoriadol (geiriad newydd y cwestiwn)**

| | Cyfweliad dilynol 3 [1] | | Cyfweliad dilynol [3] | |
|---|---|---|---|---|
| | **N** | **%** | **N** | **%** |
| **Gwyn** | | | | |
| Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig | 154 | 85% | 137 | 90% |
| Gwyddel/Gwyddeles | 11 | 6% | 5 | 3% |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 3 | 2% | 1 | 1% |
| Roma | 4 | 2% | 1 | 1% |
| Arall - unrhyw gefndir Gwyn arall | 2 | 1% | 2 | 1% |
| **Cymysg neu Grwpiau aml-ethnig** | | | | |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 15 | 8% | 2 | 1% |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 4 | 2% | 0 | 0% |
| Gwyn ac Asiaidd | 11 | 6% | 1 | 1% |
| Arall – unrhyw gefndir Cymysg neu luosog arall | 1 | 1% | 0 | 0% |
| **Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig** | | | | |
| Indiaidd | 3 | 2% | 0 | 0% |
| Pacistanaidd | 5 | 3% | 0 | 0% |
| Bangladeshaidd | 3 | 2% | 0 | 0% |
| Tsieineaidd | 6 | 3% | 1 | 1% |
| Arall - unrhyw gefndir Asiaidd arall | 2 | 1% | 0 | 0% |
| **Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd** | | | | |
| Caribïaidd | 6 | 3% | 0 | 0% |
| Cefndir Affricanaidd | 9 | 5% | 1 | 1% |
| Arall – unrhyw gefndir Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall | 2 | 1% | 0 | 0% |
| **Grŵp ethnig arall** | | | | |
| Arabaidd | 15 | 8% | 0 | 0% |
| Arall - unrhyw grŵp ethnig arall | 1 | 1% | 0 | 0% |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **181** | **100%** | **153** | **100%** |

Nodiadau: Rhai achosion coll. [1] Yn cynnwys 28 o ymatebwyr a roddodd dic mewn blychau mewn mwy nag un categori grŵp ethnig pan ofynnodd y cwestiwn iddynt ddewis un adran yn unig a thicio un blwch yn unig. [2] Nid yw'n cynnwys 28 o ymatebwyr a roddodd dic mewn blychau mewn mwy nag un categori grŵp ethnig.

**Tabl 1.14 Grŵp ethnig a chefndir sampl yr arolwg trawstoriadol (geiriad gwreiddiol y cwestiwn)**

| | Gwaelodlin | | Cyfweliad dilynol 2 | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Grŵp ethnig** | **N** | **%** | **N** | **%** |
| Gwyn – S/C/A/GI/P | 157 | 88% | 166 | 89% |
| Gwyn – Gwyddelig | 2 | 1% | 2 | 1% |
| Gwyn – Sipsi, Teithiwr Gwyddelig, Roma | 1 | 1% | 0 | 0% |
| Gwyn - Arall | 15 | 8% | 13 | 7% |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 1 | 1% | 0 | 0% |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 1 | 1% | 0 | 0% |
| Cymysg – Gwyn ac Asiaidd | | | | |
| Gwyn – Arall | 0 | 0% | 2 | 1% |
| Asiaidd – Arall | 0 | 0% | 1 | <1% |
| Du Affricanaidd | 1 | 1% | 0 | 0% |
| Du - Caribïaidd | 0 | 0% | 1 | <1% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 0 | 0% | 1 | <1% |
| | | | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** | **186** | **100%** |

Roedd mwy na thri chwarter y sampl (78%) mewn perthynas ar adeg cwblhau’r arolwg dilynol terfynol, tra bod 14% yn sengl (gweler Tabl 1.15). Roedd y gweddill naill ai wedi gwahanu, wedi ysgaru, yn weddw (7%) neu'n well ganddynt beidio â datgelu eu statws priodasol (<1%). O gymharu â'r ddau sampl arolwg blaenorol, roedd yr un hwn yn cynnwys cyfran weddol debyg o bobl mewn perthynas (78% o gymharu â 74% a 67%).

Yn wahanol i’r ddau sampl arolwg blaenorol lle’r oedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn byw ar aelwydydd heb blant, dywedodd mwy na hanner ymatebwyr yr arolwg eu bod yn byw mewn cartref lle roedd o leiaf un plentyn dan 18 oed (51%). Roedd hyn yn cynnwys 8% yn byw gyda thri neu fwy o blant, 21% yn byw gyda dau o blant a'r 23% arall yn byw gydag un plentyn o dan 18 oed (gweler Tabl 1.16).

**Tabl 1.15 Statws priodasol a nifer y plant o dan 18 oed sy'n byw gartref o sampl yr arolwg trawstoriadol**

| | Gwaelodlin | | Cyfweliad dilynol 2 | | Cyfweliad dilynol 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **N** | **%** | **N** | **%** | **N** | **%** |
| **Statws priodasol** | | | | | | |
| Priod | 46 | 26% | 79 | 43% | 98 | 54% |
| Mewn partneriaeth sifil | 1 | 1% | 2 | 1% | 9 | 5% |
| Yn cyd-fyd/byw gyda phartner | 28 | 16% | 32 | 17% | 22 | 12% |
| Sengl | 52 | 29% | 39 | 21% | 25 | 14% |
| Mewn perthynas | 42 | 24% | 25 | 13% | 13 | 7% |
| Gweddw | 2 | 1% | 1 | <1% | 1 | 1% |
| Wedi ysgaru | 3 | 2% | 4 | 2% | 9 | 5% |
| Wedi gwahanu | 3 | 2% | 3 | 2% | 2 | 1% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 2 | 1% | 1 | <1% | 1 | 1% |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** | **186** | **100%** | **181** | **100%** |

Nodiadau: rhai achosion coll.

**Tabl 1.16 Nifer y plant dan 18 oed sy'n byw gartref o sampl yr arolwg trawstoriadol**

| | Gwaelodlin | | Cyfweliad dilynol 2 | | Cyfweliad dilynol 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **N** | **%** | **N** | **%** | **N** | **%** |
| | | | | | | |
| Dim | 109 | 61% | 117 | 64% | 87 | 49% |
| 1 | 27 | 15% | 30 | 16% | 41 | 23% |
| 2 | 29 | 16% | 36 | 19% | 38 | 21% |
| 3 neu fwy | 14 | 8% | 3 | 2% | 13 | 8% |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** | **186** | **100%** | **181** | **100%** |

Nodiadau: rhai achosion coll.

Addysg, cyflogaeth a hyfforddiant

Roedd sampl yr arolwg yn cynnwys pobl â chymysgedd o fathau o gyrhaeddiad addysgol. Roedd hyn yn amrywio o bobl â chymwysterau lefel Mynediad neu Lefel 1 (9%) i bobl â chymwysterau Lefel 8 (lefel doethuriaeth) (5%) (gweler Tabl 1.17). Roedd gan fwy na thraean o'r sampl gymwysterau ar Lefel 3 neu'n is (35%), a oedd yn cynnwys 15% gyda chymwysterau Lefel 3 (Safon Uwch neu UG). Roedd gan fwy na chwarter (29%) y sampl gymwysterau lefel ôl-raddedig ar Lefel 7 (gradd meistr) neu uwch. O'i gymharu â'r sampl dilynol blaenorol (ond nid yn wahanol i sampl y gwaelodlin), roedd y trydydd sampl hwn yn cynnwys llai o bobl â chymwysterau Lefel 6 neu uwch (48% o gymharu â 70%).

**Tabl 1.17 Cymwysterau sampl yr arolwg trawstoriadol**

| | **Gwaelodlin** | | **Cyfweliad dilynol 2** | | **Cyfweliad dilynol 3** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **N** | **%** | **N** | **%** | **N** | **%** |
| **Cymhwyster uchaf** | | | | | | |
| Lefel mynediad | 5 | 3% | 0 | 0% | 8 | 5% |
| Lefel 1 | 1 | 1% | 1 | <1% | 7 | 4% |
| Lefel 2 | 8 | 5% | 8 | 4% | 19 | 11% |
| Lefel 3 | 57 | 32% | 22 | 12% | 27 | 15% |
| Lefel 4 | 11 | 6% | 13 | 7% | 13 | 7% |
| Lefel 5 | 22 | 12% | 11 | 6% | 19 | 11% |
| Lefel 6 | 40 | 22% | 59 | 32% | 33 | 19% |
| Lefel 7 | 29 | 16% | 50 | 27% | 43 | 24% |
| Lefel 8 | 6 | 3% | 21 | 11% | 9 | 5% |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** | **186** | **100%** | **181** | **100%** |

O ran statws cyflogaeth, unwaith eto, roedd y sampl yn gymysg (gweler Tabl 1.18), er ei fod yn gorgynrychioli pobl mewn cyflogaeth (78%), gan gynnwys cyflogaeth amser llawn (62%), cyflogaeth ran amser (12%) a hunangyflogaeth (4%). Mae'r nifer fawr o ymatebwyr cyflogedig yn y sampl yn golygu bod yn rhaid bod yn ofalus wrth gyffredinoli canfyddiadau'r arolwg. Mae'n werth nodi na chafodd gor-gynrychiolaeth myfyrwyr prifysgol o fewn sampl arolwg y gwaelodlin ei ailadrodd yn y naill na'r llall o'r samplau dilynol. Yn wir, dim ond 5% o'r cyfweliad dilynol terfynol oedd yn fyfyrwyr o gymharu â bron i hanner sampl y gwaelodlin.

**Tabl 1.18 Statws cyflogaeth sampl yr arolwg trawstoriadol**

| | Gwaelodlin | | Cyfweliad dilynol 2 | | Cyfweliad dilynol 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **N** | **%** | **N** | **%** | **N** | **%** |
| **Statws cyflogaeth** | | | | | | |
| Cyflogedig amser llawn (30+h) | 52 | 29% | 118 | 63% | 112 | 62% |
| Cyflogedig rhan amser (<30h) | 16 | 9% | 26 | 14% | 21 | 12% |
| Hunangyflogedig | 5 | 3% | 5 | 3% | 7 | 4% |
| Di-waith ond yn chwilio am waith | 6 | 3% | 0 | 0% | 10 | 6% |
| Di-waith ond ddim yn chwilio am waith | 4 | 2% | 1 | <1% | 1 | 1% |
| Gofalu am y cartref/teulu | 2 | 1% | 2 | 1% | 1 | 1% |
| Wedi ymddeol | 4 | 2% | 4 | 2% | 17 | 9% |
| Disgybl/myfyriwr/Addysg amser llawn | 87 | 49% | 27 | 15% | 9 | 5% |
| Arall | 3 | 2% | 3 | 2% | 2 | 1% |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** | **186** | **100%** | **181** | **100%** |

<u>Statws ariannol</u>

Roedd statws ariannol ymatebwyr yr harolwg yn amrywio ac yn cynnwys pobl sy'n ennill llai na £5,199 y flwyddyn (3%) yn ogystal â phobl yn ennill dros £52,000 (23%) (gweler Tabl 1.19). Nid yw'n syndod efallai, bod pobl ddi-waith yn fwy tebygol na'r rheini mewn categorïau cyflogaeth eraill o nodi eu bod yn ennill y lefelau incwm isaf. Fodd bynnag, nododd myfyrwyr mewn addysg amser llawn a gweithwyr rhan-amser lefelau incwm llawer is na'r rheini mewn cyflogaeth amser llawn a hunangyflogaeth hefyd.

**Tabl 1.19 Statws ariannol sampl yr arolwg trawstoriadol**

| | Gwaelodlin | | Cyfweliad dilynol 2 | | Cyfweliad dilynol 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Ydych chi'n derbyn unrhyw fudd-daliadau'r wladwriaeth ar hyn o bryd** | | | | | | |
| Credyd Cynhwysol | 10 | 6% | 11 | 6% | 18 | 10% |
| Budd-daliadau eraill | 20 | 11% | 8 | 4% | 13 | 7% |
| Nac ydw | 143 | 80% | 164 | 88% | 134 | 74% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 6 | 3% | 3 | 2% | 15 | 8% |
| | | | | | | |
| **Incwm y cartref (blynyddol)** | | | | | | |
| Hyd at £5,199 | 19 | 11% | 5 | 3% | 6 | 3% |
| £5,200-£10,399 | 22 | 12% | 6 | 3% | 13 | 7% |
| £10,400-£15,599 | 18 | 10% | 6 | 3% | 11 | 6% |
| £15,600-£20,799 | 16 | 9% | 11 | 6% | 17 | 9% |
| £20,800-£25,999 | 13 | 7% | 12 | 7% | 19 | 11% |
| £26,000-£36,399 | 19 | 11% | 32 | 17% | 29 | 16% |
| £36,400-£51,999 | 31 | 17% | 44 | 23% | 26 | 14% |
| £52,000 y flwyddyn neu fwy | 23 | 13% | 48 | 26% | 42 | 23% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 18 | 10% | 22 | 12% | 17 | 9% |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** | **186** | **100%** | **181** | **100%** |

Nodiadau: Rhai achosion coll.

Yn debyg i'r gwaelodlin a'r sampl dilynol cyntaf, nid oedd y rhan fwyaf o'r sampl terfynol yn derbyn budd-daliadau ar adeg cwblhau'r arolwg (gweler Tabl 1.19). Fodd bynnag, dywedodd 17% eu bod yn derbyn budd-daliadau, a oedd yn cynnwys 10% a oedd yn cael Credyd Cynhwysol.

Pan ofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn ymdopi'n ariannol, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn ymdopi'n eithaf da (38%) neu'n dda iawn (24%) (gweler Tabl 1.20). Mynegodd ychydig yn llai na chwarter ateb niwtral tra nododd 11% nad oeddent yn ymdopi'n dda a 2% nad oeddent yn ymdopi'n dda o gwbl. Mae'r ffigurau hyn yn cyfateb yn agos i rai sampl y gwaelodlin a sampl yr arolwg dilynol cyntaf.

**Tabl 1.20 Statws ariannol sampl yr arolwg trawstoriadol**

| | Gwaelodlin | | Cyfweliad dilynol 2 | | Cyfweliad dilynol 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **N** | **%** | **N** | **%** | **N** | **%** |
| | | | | | | |
| Yn ymdopi'n dda iawn | 17 | 10% | 23 | 12% | 43 | 24% |
| Yn ymdopi'n eithaf da | 92 | 51% | 101 | 54% | 69 | 38% |
| Naill neu'r llall | 37 | 21% | 40 | 22% | 44 | 24% |
| Ddim yn ymdopi'n dda | 22 | 12% | 20 | 11% | 20 | 11% |
| Ddim yn ymdopi'n dda o gwbl | 11 | 6% | 2 | 1% | 4 | 2% |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** | **186** | **100%** | **181** | **100%** |

Nodiadau: Rhai achosion coll.

Ardal ddaearyddol

Roedd ymatebwyr yr arolwg yn byw mewn ystod o leoliadau ledled Cymru ar adeg cwblhau'r arolwg dilynol terfynol (gweler Tabl 1.21). Cynrychiolwyd un ar hugain o'r 22 ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru yn yr arolwg gyda'r cyfrannau mwyaf yn preswylio yng Nghaerdydd (16%), Rhondda Cynon Taf (RCT) (13%) a Wrecsam (12%). Er na chynrychiolwyd pob ardal Awdurdod Lleol, roedd pob un o'r saith ardal Bwrdd Iechyd wedi'u cynrychioli yn yr astudiaeth yn yr un modd â'r gwaelodlin.

**Tabl 1.21 Awdurdod Lleol/Bwrdd Iechyd sampl yr arolwg trawstoriadol**

| | Gwaelodlin | | Cyfweliad dilynol 2 | | Cyfweliad dilynol 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **N** | **%** | **N** | **%** | **N** | **%** |
| Blaenau Gwent - ABUHB | 3 | 2% | 6 | 3% | 4 | 2% |
| Pen-y-bont ar Ogwr - CTHB | 8 | 5% | 12 | 7% | 10 | 6% |
| Caerffili - ABUHB | 8 | 5% | 11 | 6% | 13 | 7% |
| Caerdydd – CVUHB | 23 | 13% | 46 | 25% | 28 | 16% |
| Sir Gâr - HDHB | 1 | 1% | 2 | 1% | 6 | 3% |
| Ceredigion - HDHB | 0 | 0% | 2 | 1% | 5 | 3% |
| Conwy – BCUHB | 2 | 1% | 2 | 1% | 8 | 5% |
| Sir Ddinbych – BCUHB | 6 | 3% | 0 | 0% | 5 | 3% |
| Sir y Fflint – BCUHB | 13 | 7% | 5 | 3% | 9 | 5% |
| Gwynedd – BCUHB | 1 | 1% | 0 | 0% | 2 | 1% |
| Ynys Môn - BCUHB | 0 | 0% | 1 | <1% | 0 | 0% |
| Merthyr Tudful - CTHB | 2 | 1% | 6 | 3% | 6 | 3% |
| Sir Fynwy – ABUHB | 1 | 1% | 4 | 2% | 1 | 1% |
| Castell Nedd Port Talbot - ABMUHB | 2 | 1% | 5 | 3% | 3 | 2% |
| Casnewydd – ABUHB | 12 | 7% | 23 | 12% | 17 | 10% |
| Sir Benfro - HDHB | 7 | 4% | 1 | <1% | 1 | 1% |
| Powys – PTHB | 6 | 3% | 1 | <1% | 7 | 4% |
| Rhondda Cynon Taf – CTHB | 24 | 14% | 30 | 16% | 23 | 13% |
| Abertawe - ABMUHB | 0 | 0% | 10 | 5% | 1 | 1% |
| Torfaen – ABUHB | 2 | 1% | 7 | 4% | 3 | 2% |
| Bro Morgannwg – CVUHB | 5 | 3% | 9 | 5% | 5 | 3% |
| Wrecsam – BCUHB | 52 | 29% | 3 | 2% | 21 | 12% |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** | **186** | **100%** | **181** | **100%** |

Nodiadau: Rhai achosion coll. ABMUHB (Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg); ABUHB (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan); BCUHB (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr); CTHB (Bwrdd Iechyd Cwm Taf); CVUHTB (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro); HDUHB (Bwrdd Iechyd Hywel Dda); PTHB (Bwrdd Iechyd Addysgu Powys).

Rhannwyd y sampl yn weddol gyfartal o ran y math o ardal yr oeddent yn byw ynddi (gweler Tabl 1.22). Yn debyg i’r sampl dilynol blaenorol, roedd mwyafrif y sampl dilynol terfynol yn byw mewn ardaloedd trefol a maestrefol (68%), gyda lleiafrif yn unig mewn ardaloedd gwledig (32%).

**Tabl 1.22 Math o ardal sampl yr arolwg trawstoriadol**

| | Gwaelodlin | | Cyfweliad dilynol 2 | | Cyfweliad dilynol 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| Trefol | 48 | 27% | 61 | 33% | 53 | 30% |
| Maestrefol | 46 | 26% | 80 | 43% | 67 | 38% |
| Gwledig | 84 | 47% | 44 | 24% | 56 | 32% |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** | **186** | **100%** | **181** | **100%** |

Nodiadau: rhai achosion coll.

O ran statws tai, roedd sampl terfynol yr ymatebwyr yn gymysg ac yn cynnwys pobl yn byw yn eu cartrefi eu hunain heb forgeisi (30%), pobl yn rhentu gan landlord preifat (7%) a phobl yn rhentu gan y cyngor neu mewn tai cymdeithasol (7%) (gweler Tabl 1.23). Y statws a adroddwyd amlaf oedd 'perchennog tŷ – gyda morgais' (42%). O gymharu â'r samplau blaenorol, roedd llawer mwy o'r sampl dilynol yn berchnogion tai heb forgais (30% o gymharu â 7% ar y gwaelodlin) ac roedd llawer llai yn rhentu gan y cyngor neu mewn tai cymdeithasol (7% o gymharu â 16% ar y gwaelodlin).

**Tabl 1.23 Statws tai sampl yr arolwg trawstoriadol**

| | Gwaelodlin | | Cyfweliad dilynol 2 | | Cyfweliad dilynol 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Statws tai** | | | | | | |
| Perchennog tŷ (morgais) | 50 | 28% | 98 | 53% | 75 | 42% |
| Perchennog tŷ (dim morgais) | 13 | 7% | 27 | 15% | 53 | 30% |
| Rhentu (preifat) | 41 | 23% | 30 | 16% | 12 | 7% |
| Rhentu (tŷ cymdeithasol, cyngor) | 28 | 16% | 5 | 3% | 12 | 7% |
| Yn byw gyda theulu/ffrindiau | 34 | 19% | 23 | 12% | 19 | 11% |
| Hostel/llety arall â chymorth | 11 | 6% | 0 | 0% | 6 | 3% |
| Digartref ar y stryd | 1 | 1% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Arall | 0 | 0% | 3 | 2% | 2 | 1% |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** | **186** | **100%** | **181** | **100%** |

Nodiadau: Rhai achosion coll.

Patrymau yfed

**Sgôr AUDIT**

Ar sail eu sgorau AUDIT, roedd dwy ran o bump o'r sampl (40%) yn y categori 'risg is' a gellid eu hystyried yn yfwyr 'cymedrol' (Tabl 1.24). Mesurwyd bod traean (33%)

mewn 'risg gynyddol' neu'n 'yfwyr peryglus', ac roedd y gweddill (23%) yn y categori 'risg uwch' ac yn cael eu hystyried yn yfwyr 'niweidiol'. Mae'r dosbarthiad hwn yn wahanol iawn i'r hyn a adroddwyd gan y gwaelodlin a'r samplau dilynol cyntaf, a oedd wedi'u gogwyddo o blaid yfwyr cymedrol. Mae cynnwys yfwyr mwy niweidiol yn ddefnyddiol gan ei fod yn golygu bod y sampl yn fwy cytbwys ac yn caniatáu i ystod ehangach o safbwyntiau gael eu cynrychioli. Mae hefyd yn golygu bod y sampl yn cyfateb yn agosach i ddosbarthiad risg yfwyr sy'n oedolion ledled Cymru. Yn wir, o'r 1000 o ymatebwyr a gwblhaodd Arolwg Omnibws Cymru ym mis Mehefin 2022, roedd 41% wedi'u categoreiddio'n 'risg is' a 45% yn risg gynyddol neu uwch.

**Tabl 1.24 Cymeriant alcohol ymhlith sampl yr arolwg trawstoriadol**

| | **Gwaelodlin** | | **Cyfweliad dilynol 2** | | **Cyfweliad dilynol 3** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **N** | **%** | **N** | **%** | **N** | **%** |
| | | | | | | |
| Sgôr AUDIT | | | | | | |
| Risg is | 92 | 52% | 103 | 55% | 71 | 40% |
| Risg gynyddol | 64 | 36% | 68 | 37% | 59 | 33% |
| Risg uwch | 10 | 6% | 5 | 3% | 18 | 10% |
| Dibyniaeth bosibl | 11 | 6% | 10 | 5% | 31 | 17% |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** | **186** | **100%** | **181** | **100%** |

Hanes triniaeth

Er bod y prosiect hwn yn canolbwyntio ar y boblogaeth ehangach o yfwyr yng Nghymru, roedd y dulliau recriwtio yn golygu ei bod yn dal yn bosibl i yfwyr sy'n cael triniaeth ar hyn o bryd gwblhau'r arolwg ar-lein. Pan ofynnwyd iddynt am hanes eu triniaeth, nododd 16 o ymatebwyr eu bod yn cael triniaeth ar hyn o bryd ar gyfer problemau alcohol a saith ar gyfer problemau cyffuriau (gweler Tabl 1.25). Mae'r ffigurau hyn ychydig yn uwch na'r niferoedd a gynhwyswyd yn samplau blaenorol yr arolwg (a gallant adlewyrchu'r nifer uwch o yfwyr â sgorau uchel ar AUDIT yn y sampl terfynol). Fodd bynnag, mae'r sampl yn dal i fod yn cynnwys pobl heb unrhyw hanes o driniaeth yn ddiweddar, nac yn y gorffennol.

**Tabl 1.25 Hanes triniaeth cyffuriau/alcohol ymhlith sampl yr arolwg trawstoriadol**

| | Gwaelodlin | | Cyfweliad dilynol 2 | | Cyfweliad dilynol 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| Triniaeth erioed ar gyfer problemau alcohol | 7 | 4% | 3 | <1% | 25 | 14% |
| Triniaeth erioed ar gyfer problemau cyffuriau | 3 | 2% | 5 | 3% | 21 | 12% |
| Heb dderbyn triniaeth ar gyfer y naill na'r llall erioed | 169 | 94% | 179 | 97% | 142 | 79% |
| | | | | | | |
| Triniaeth gyfredol ar gyfer problemau alcohol | 3 | 2% | 2 | 1% | 16 | 9% |
| Triniaeth gyfredol ar gyfer problemau cyffuriau | 0 | 0% | 3 | 2% | 7 | 4% |
| Ddim yn derbyn triniaeth ar gyfer y naill na'r llall | 176 | 98% | 181 | 97% | 156 | 86% |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** | **186** | **100%** | **181** | **100%** |

Nodiadau: Rhai achosion coll. Ymatebion lluosog yn bosibl.

Ansawdd bywyd

Cafodd pedwar cwestiwn yn cwmpasu gwahanol agweddau ar ansawdd bywyd[8] eu cynnwys yn yr arolwg (gweler Tabl 1.26). Mynegodd mwy na dwy ran o dair o'r cyfweleion lefelau uchel o foddhad â'u bywydau ac roedd cyfran debyg yn teimlo bod y pethau yr oeddent yn eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil. Pan ofynnwyd iddynt pa mor hapus oeddent ddoe, mynegodd bron i ddwy ran o dair sgorau uchel a nododd 38% fod ganddynt lefelau isel o orbryder ddoe. Fodd bynnag, er ei bod yn ymddangos bod gan lawer o'r cyfweleion ansawdd bywyd da (yn seiliedig ar y pedwar mesur hyn), roedd lleiafrif sylweddol yn llawer llai ffodus. Yn wir, roedd gan 7% lefelau isel o foddhad, ac nid oedd yr un gyfran (7%) yn credu bod y pethau yr oeddent yn eu gwneud yn werth chweil. Ar ben hynny, nododd bron i un rhan o ddeg o'r ymatebwyr nad oeddent yn hapus ddoe a dywedodd dros hanner fod ganddynt lefelau pryder canolig (33%) neu uchel (28%) ddoe. O gymharu â'r samplau blaenorol, roedd gan y sampl dilynol hwn lefelau uwch o foddhad (67% o gymharu â 52% ar y gwaelodlin) a lefelau uwch o hapusrwydd (62% o gymharu â 48%). Fodd bynnag, roedd y tri sampl yn debyg o ran pa mor werth chweil oedd eu bywydau a lefelau eu pryder.

[8] Defnyddiwyd yr un mesurau ar gyfer asesu ansawdd bywyd ymhlith y rhai a gyfwelwyd ac roeddent yn seiliedig ar y Rhaglen Mesur Lles Cenedlaethol.

**Tabl 1.26 Mesurau ansawdd bywyd ymhlith sampl yr arolwg trawstoriadol**

| | Gwaelodlin | | Cyfweliad dilynol 2 | | Cyfweliad dilynol 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **N** | **%** | **N** | **%** | **N** | **%** |
| Pa mor fodlon ydych chi â'ch bywyd? | | | | | | |
| Isel (0-3) | 21 | 12% | 20 | 11% | 12 | 7% |
| Canolig (4-6) | 64 | 36% | 47 | 25% | 48 | 27% |
| Uwch (7-10) | 92 | 52% | 119 | 64% | 120 | 67% |
| | | | | | | |
| Pa mor werth chweil yw'r pethau rydych chi'n eu gwneud? | | | | | | |
| Isel (0-3) | 19 | 11% | 16 | 9% | 12 | 7% |
| Canolig (4-6) | 44 | 25% | 43 | 23% | 44 | 24% |
| Uwch (7-10) | 114 | 64% | 127 | 68% | 124 | 69% |
| | | | | | | |
| Pa mor hapus oeddech chi ddoe? | | | | | | |
| Isel (0-3) | 35 | 20% | 21 | 11% | 15 | 8% |
| Canolig (4-6) | 58 | 33% | 50 | 27% | 54 | 30% |
| Uwch (7-10) | 84 | 48% | 115 | 62% | 111 | 62% |
| | | | | | | |
| Pa mor bryderus oeddech chi ddoe? | | | | | | |
| Isel (0-3) | 69 | 39% | 82 | 44% | 69 | 38% |
| Canolig (4-6) | 49 | 28% | 52 | 28% | 60 | 33% |
| Uwch (7-10) | 59 | 33% | 52 | 28% | 51 | 28% |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** | **186** | **100%** | **181** | **100%** |

# 5. Canfyddiadau

Mae'r tablau yn yr adran hon yn rhoi manylion meintiol ychwanegol i'r canfyddiadau a gyflwynir ym Mhenodau 5, 6, 7, 8 a 10 o'r prif adroddiad. Er eglurder, mae pob un o'r is-adrannau isod â phennawd â rhif a theitl y bennod lle trafodir y tablau.

## Pennod 5 – Ymwybyddiaeth o IA a'i weithrediad

Trafodir y tablau isod ym Mhennod 5 o'r prif adroddiad.

**Tabl 5.1 A oeddech chi wedi clywed am IA cyn cwblhau'r arolwg hwn?**

| | N | % |
|---|---:|---:|
| | | |
| Oeddwn | 110 | 62% |
| Nac oeddwn | 43 | 24% |
| Ddim yn siŵr | 24 | 14% |
| | | |
| **CYFANSWM** | **177** | **100%** |

Nodiadau: Rhai achosion coll.

**Tabl 5.2 Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau ym mhris alcohol ers mis Mawrth 2020?**

| | N | % |
|---|---:|---:|
| Do | 122 | 68% |
| Naddo | 57 | 32% |
| | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** |

Nodiadau: Rhai achosion coll.

**Tabl 5.3 Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw gynhyrchion alcohol nad sydd ar gael i'w prynu mwyach?**

| | N | % |
|---|---:|---:|
| | | |
| Do | 27 | 15% |
| Naddo | 152 | 85% |
| | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** |

Nodiadau: Rhai achosion coll.

## Pennod 6 – Newidiadau mewn cymeriant alcohol ac ymddygiadau cysylltiedig

Trafodir y tablau isod ym Mhennod 6 y prif adroddiad.

**Tabl 6.1 Newidiadau yn faint o alcohol ac amlder yfed ers mis Mawrth 2020**

| | N | % |
|---|---|---|
| **Faint** | | |
| Rwy'n yfed llawer mwy | 5 | 3% |
| Rwy'n yfed ychydig mwy | 29 | 16% |
| Rwy'n yfed yr un faint | 84 | 47% |
| Rwy'n yfed ychydig yn llai | 41 | 23% |
| Rwy'n yfed llawer llai | 15 | 8% |
| Rwyf wedi rhoi'r gorau i yfed | 5 | 3% |
| | | |
| **Amlder** | | |
| Rwy'n yfed yn llawer amlach | 2 | 1% |
| Rwy'n yfed ychydig yn amlach | 24 | 13% |
| Rwy'n yfed ar yr un amlder | 84 | 47% |
| Rwy'n yfed ychydig yn llai aml | 45 | 25% |
| Rwy'n yfed yn llawer llai aml | 20 | 11% |
| Rwyf wedi rhoi'r gorau i yfed yn gyfan gwbl | 4 | 2% |
| | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** |

Nodiadau: Rhai achosion coll.

**Tabl 6.2 Newidiadau mewn ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag yfed ers mis Mawrth 2020**

| | **Oes** | Nac oes | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Math o alcohol | 22% (40) | 78% (139) | 100% (179) |
| Brand alcohol | 22% (39) | 78% (141) | 100% (180) |
| Ble rydych chi'n yfed alcohol | 22% (39) | 78% (138) | 100% (177) |
| Gyda phwy rydych chi'n yfed alcohol | 24% (42) | 76% (135) | 100% (179) |
| Eich defnydd o ddiodydd di-alcohol/alcohol isel | 21% (37) | 79% (142) | 100% (180) |
| | | | |

Nodiadau: Rhai achosion coll.

## Pennod 7 – Newidiadau mewn gwariant cartref a phatrymau prynu alcohol

Trafodir y tablau isod ym Mhennod 7 o'r prif adroddiad.

**Tabl 7.1 Newid mewn fforddiadwyedd alcohol ers mis Mawrth 2020**

| | N | % |
|---|---|---|
| | | |
| Llawer mwy fforddiadwy | 4 | 2% |
| Mwy fforddiadwy | 24 | 13% |
| Dim gwahaniaeth | 94 | 53% |
| Llai fforddiadwy | 47 | 26% |
| Llawer llai fforddiadwy | 10 | 6% |
| | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** |

Nodiadau: Rhai achosion coll.

**Tabl 7.2 Newid mewn patrymau prynu ers mis Mawrth 2020**

| | Oes | Nac oes | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Faint ydych chi'n ei wario ar alcohol | 36% (64) | 64% (113) | 100% (177) |
| Ble rydych chi'n prynu alcohol | 29% (51) | 71% (127) | 100% (178) |
| Sut rydych yn ariannu eich defnydd o alcohol | 16% (28) | 84% (147) | 100% (175) |

Nodiadau: Rhai achosion coll.

## Pennod 8 – Newidiadau mewn defnydd o sylweddau eraill

Trafodir y tablau isod ym Mhennod 8 y prif adroddiad.

**Tabl 8.1 Newidiadau mewn defnydd o sylweddau eraill**

| | Wedi cynyddu | Wedi gostwng | Wedi aros yr un fath | Wedi aros ar sero | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Cyffuriau anghyfreithlon | 3% (6) | 7% (13) | 12% (22) | 77% (137) | 100% (178) |
| Cyffuriau a ragnodwyd i rywun arall | 2% (4) | 6% (11) | 17% (31) | 74% (132) | 100% (178) |
| Meddyginiaeth dros y cownter | 3% (6) | 8% (14) | 44% (78) | 44% (78) | 100% (178) |
| Cyffuriau a ragnodwyd i chi | 10% (18) | 7% (13) | 41% (74) | 41% (74) | 100% (179) |
| Unrhyw sylweddau eraill | 1% (1) | 6% (10) | 15% (26) | 79% (138) | 100% (175) |

Nodiadau: Rhai achosion coll.

## Pennod 10 – Safbwyntiau ar effeithiolrwydd a dyfodol IA

Trafodir y tablau isod ym Mhennod 10 y prif adroddiad.

**Tabl 10.1 I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad: "Mae IA wedi bod yn effeithiol wrth leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru"?**

| | N | % |
|---|---:|---:|
| | | |
| Cytuno'n gryf | 13 | 7% |
| Cytuno i ryw raddau | 33 | 19% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 58 | 33% |
| Anghytuno i ryw raddau | 34 | 19% |
| Anghytuno'n gryf | 40 | 23% |
| | | |
| **CYFANSWM** | **178** | **100%** |

Nodiadau: Rhai achosion coll.

**Tabl 10.2 Pa mor gryf ydych chi o blaid IA yn parhau yng Nghymru?**

| | N | % |
|---|---:|---:|
| | | |
| Yn gryf o blaid | 15 | 8% |
| O blaid i ryw raddau | 41 | 23% |
| Ddim o blaid nac yn erbyn | 52 | 29% |
| Yn erbyn i ryw raddau | 25 | 14% |
| Yn gryf yn erbyn | 39 | 22% |
| Dydw i ddim yn gwybod | 7 | 4% |
| | | |
| **CYFANSWM** | **179** | **100%** |

Nodiadau: Rhai achosion coll.

**Tabl 10.3 Pe bai opsiwn i newid yr isafbris uned, beth fyddech chi'n ei argymell?**

| | N | % |
|---|---:|---:|
| | | |
| Ei wneud yn uwch | 31 | 17% |
| Ei wneud yn is | 37 | 21% |
| Ei gadw ar 50c | 55 | 31% |
| Cael gwared ag IA a pheidio â chael isafbris uned | 55 | 31% |
| | | |
| **CYFANSWM** | **178** | **100%** |

Nodiadau: Rhai achosion coll.

# 6. Amserlen cyfweliadau

**Gwerthusiad o Isafbris am Alcohol yng Nghymru**
**Effaith ar boblogaeth ehangach o yfwyr (Lot 4)**

## Cyflwyniad a rhaglith

Fy enw i yw [ymchwilydd] ac rwy'n rhan o dîm o ymchwilwyr sydd wedi'u comisiynu gan Lywodraeth Cymru i werthuso effaith Isafbris am Alcohol yng Nghymru. Diolch am gytuno i gael eich cyfweld. A gaf i wirio eich bod wedi darllen yr hysbysiad preifatrwydd a'r daflen wybodaeth a hefyd eich bod yn cydsynio i gael eich cyfweld? Bydd y cyfweliad yn cymryd tua 30 munud a bydd yn seiliedig ar gyfres o gwestiynau agored yn bennaf lle gofynnir i chi ddweud wrthym am eich patrymau yfed ers cyflwyno IA yn ôl ym mis Mawrth 2020 ac wedi hynny. Ceisiwch ateb mor llawn â phosib. Ar ôl y cyfweliad byddaf yn anfon taleb Argos gwerth £10 atoch drwy'r Post Brenhinol (yn ogystal â thaleb bonws os ydych wedi cymryd rhan mewn o leiaf dau gyfweliad blaenorol). Byddaf yn gofyn i chi am eich cyfeiriad post a byddaf yn ei storio'n ddiogel nes bydd y daleb wedi'i derbyn.

Cofiwch fod eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol a'ch bod yn rhydd i hepgor unrhyw gwestiynau neu roi'r gorau i'r cyfweliad ar unrhyw adeg. Cedwir eich hunaniaeth yn gyfrinachol (ac eithrio o dan yr amgylchiadau a amlinellir yn y daflen wybodaeth) a bydd eich ymatebion yn ddienw mewn unrhyw adroddiadau neu erthyglau a ysgrifennwn. A gaf i wirio eich bod yn dal yn hapus i mi recordio'r cyfweliad ar y recordydd digidol hwn? Cymerwch ofal i beidio â sôn am unrhyw enwau tra bo'r recordydd ymlaen, ond peidiwch â phoeni os byddwch yn gwneud hynny gan y byddwn yn eu dileu o'r trawsgrifiad ysgrifenedig cyn gynted ag y bydd wedi'i drawsgrifio. Diolch eto am ein helpu gyda'r prosiect pwysig hwn.

Nodwch ID unigryw'r cyfwelai ar ddechrau'r cyfweliad ar y recordiad.

| Thema | Cwestiynau | Prociau |
|---|---|---|
| **Nodweddion demograffig-gymdeithasol**<br><br>Darparoch lawer o wybodaeth am eich nodweddion demograffig-gymdeithasol yn y cyfweliad cyntaf. Diolch am wneud hynny. | 1. A gaf fi ofyn ichi a oes unrhyw beth wedi newid ers i ni siarad ddiwethaf (Mehefin 2022)? Mae gen i restr o bethau i'w gwirio gyda chi: | a. Rhyw<br>b. Grŵp ethnig<br>c. Ardal Awdurdod Lleol<br>d. Math o ardal<br>e. Categori oedran (gofynnwch faint yw eu hoedran)<br>f. Statws priodasol<br>g. Plant 17 oed ac iau yn byw gartref<br>h. Cymhwyster uchaf<br>i. Budd-daliadau<br>j. Statws cyflogaeth<br>k. Sefyllfa o ran tai<br>l. Categori incwm<br>m. Hanes triniaeth |
| | 2. Pa mor dda fyddech chi'n dweud eich bod chi'n ymdopi'n ariannol y dyddiau hyn? | • Da iawn<br>• Eithaf da<br>• Naill neu'r llall<br>• Ddim yn dda<br>• Ddim yn dda o gwbl |
| | 3. Ac, a fyddai ots gennych ateb pedwar cwestiwn am ansawdd eich bywyd ar hyn o bryd, os gwelwch yn dda?<br><br>Ar raddfa o 0-10 , yn gyffredinol: | • Pa mor fodlon ydych chi â'ch bywyd?<br>• I ba raddau ydych chi'n teimlo bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil?<br>• Pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe?<br>• Pa mor bryderus oeddech chi'n teimlo ddoe? |
| **Ôl-weithredu – ymwybyddiaeth o IA** | 1. Ers i ni siarad ddiwethaf, a allwch gofio gweld unrhyw gyhoeddusrwydd am IA? | • Pryd wnaethoch chi sylwi ar hyn?<br>• Beth welsoch chi?<br>• Ble oedd hwn?<br>• Beth oedd yn ei ddweud?<br>• Beth oeddech chi'n ei feddwl/teimlo amdano? |

| Thema | Cwestiynau | Prociau |
|---|---|---|
| | 2. Ers i ni siarad ddiwethaf, a ydych wedi sylwi ar unrhyw newidiadau sylweddol ym mhris alcohol? | • Os ydych chi, disgrifiwch y newidiadau o ran pa gynhyrchion, meintiau, ac ati. |
| | 3. Ers i ni siarad ddiwethaf, a ydych chi wedi sylwi (a) bod rhai cynhyrchion nad ydynt ar gael mwyach neu (b) unrhyw gynhyrchion yn dychwelyd i'r silffoedd a oedd wedi bod ar goll yn flaenorol? | • Pa gynnyrch/gynhyrchion (math, brand, meintiau)<br>• Ym mhobman neu dim ond un lleoliad?<br>• Byrhoedlog neu'n parhau? |
| **Patrwm yfed cyfredol** | 4. Efallai y byddwch yn cofio yn y cyfweliad cyntaf i ni ofyn i chi gwblhau arolwg ar-lein cyn y cyfweliad. Nid ydym wedi gofyn ichi wneud hynny eto ar gyfer y rownd ychwanegol hon o gyfweliadau. Ond, hoffem ofyn y cwestiynau allweddol ichi o hyd am eich patrwm cyffredinol o ddefnyddio alcohol dros y flwyddyn ddiwethaf fel y gallwn weld a oes unrhyw beth wedi newid. Rydym yn gobeithio bod hyn yn iawn gyda chi? | Gofynnwch gwestiynau AUDIT (gweler diwedd yr atodlen ar gyfer y cwestiynau) neu'r ddolen hon:<br><br>[Alcoholism and Alcohol Misuse \| Doctor](#) |
| | 5. A allwch chi ddisgrifio wythnos arferol (o fewn y mis neu ddau ddiwethaf) o ran pa fath o alcohol rydych chi'n ei yfed **ar hyn o bryd**, pa frandiau, faint, pa mor aml, ble rydych chi'n tueddu i'w yfed. | • Pa fath o alcohol<br>• Pa frandiau<br>• Faint<br>• Pa mor aml<br>• Man prynu<br>• Man yfed |

| Thema | Cwestiynau | Prociau |
|---|---|---|
| | 6. Ers i ni siarad ddiwethaf, a yw eich patrwm yfed wedi newid mewn unrhyw ffordd? | • Cyfeintiau<br>• Amlder<br>• Mathau o alcohol<br>• Brandiau<br>• Yfed allan mwy/llai/yr un fath |
| | 7. Os oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud, pam fyddech chi'n dweud bod y newidiadau hyn wedi digwydd? | • IA<br>• Ffactorau eraill |
| | 8. Ydych chi wedi ceisio unrhyw gymorth (proffesiynol neu bersonol) ar gyfer eich yfed ers i ni siarad ddiwethaf? | Os do, pa mor hawdd oedd hi i ddod o hyd i gymorth?<br>Os do, gan bwy wnaethoch chi geisio cymorth?<br>Os do, a oedd y rheswm yn ymwneud â/ag:<br>• IA<br>• Ffactorau eraill |
| **Patrymau prynu** | 9. Ar gyfartaledd, faint ydych chi'n ei wario ar alcohol bob wythnos ar hyn o bryd? | |
| | 10. Sut mae'r swm o arian yr ydych yn ei wario ar alcohol bob wythnos ar hyn o bryd yn cymharu â'r tro diwethaf i ni siarad? | Os ydych yn gwario mwy/llai, a yw hyn yn gysylltiedig â/ag:<br>• IA<br>• Ffactorau eraill |

| Thema | Cwestiynau | Prociau |
| --- | --- | --- |
| | 11. Os ydych yn gwario mwy, sut ydych chi'n ariannu hyn? | • I ba raddau ydych chi wedi amsugno'r cynnydd mewn prisiau i'ch cyllidebau presennol<br>• I ba raddau ydych chi wedi symud eich arian o gwmpas i ryddhau arian (holwch am fanylion)<br>• I ba raddau ydych chi wedi benthyca arian (holwch gan bwy, pa mor aml, faint)<br>• I ba raddau ydych chi wedi cyflawni unrhyw/mwy o droseddau (holwch am y math o drosedd, pa mor aml)<br>• Oedd yna ryw ddull arall? |
| | 12. Ers i ni siarad ddiwethaf, ydych chi wedi newid ble a sut rydych chi'n prynu alcohol? Disgrifiwch y newidiadau ac eglurwch pam y gwnaethoch y newidiadau hynny. | • IA<br>• Ffactorau eraill |
| **Defnydd o sylweddau eraill** | 13. Ers i ni siarad ddiwethaf, a fu newid yn eich defnydd o sylweddau eraill (h.y. cyffuriau anghyfreithlon, cyffuriau presgripsiwn a gafwyd yn gyfreithlon, cyffuriau presgripsiwn a gafwyd yn anghyfreithlon, alcohol di-ddiod, bwyd). Os oedd, disgrifiwch y newidiadau. | Os oedd, pam wnaethoch chi newid ac a oedd y newidiadau hyn yn ymwneud â/ag:<br><br>• IA<br>• Ffactorau eraill |

| Thema | Cwestiynau | Prociau |
|---|---|---|
| **Agweddau eraill ar eich bywyd** | 14. Ers i ni siarad ddiwethaf, ydych chi wedi profi newidiadau yn unrhyw un o'r canlynol:<br><br>• Perthnasoedd teuluol<br>• Perthnasoedd ffrindiau<br>• Iechyd corfforol<br>• Iechyd meddwl<br>• Cyflogaeth<br>• Amgylchiadau ariannol<br>• Trefniadau tai/byw<br>• Troseddu<br>Unrhyw agwedd arall ar eich bywyd | Beth yw'r rhesymau dros y newidiadau hyn?<br>• IA<br>• Arall |
| | 15. Hyd yn hyn, rydym wedi gofyn i chi am eich profiadau personol eich hun. A hoffech chi wneud sylwadau mwy cyffredinol am newidiadau mewn patrymau yfed ac ymddygiadau cysylltiedig ymhlith eraill? Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi enghreifftiau o bethau yr ydych wedi sylwi arnynt. | Holwch am dystiolaeth ac enghreifftiau yn hytrach na chanfyddiadau a thybiaethau. Gofynnwch pam eu bod yn meddwl bod y newidiadau wedi digwydd a holwch am effaith IA neu ffactorau eraill. |
| **Dyfodol IA yng Nghymru** | 16. Beth yw eich barn gyffredinol ar effeithiolrwydd IA yng Nghymru? | • A yw'n lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol?<br>• Beth sy'n gwneud i chi feddwl hyn? |
| | 17. Ydych chi'n meddwl y dylid parhau â'r IA? | • Pam ydych chi'n teimlo fel hyn?<br>• Pa mor gryf ydych chi'n teimlo am hyn? |

| Thema | Cwestiynau | Prociau |
|---|---|---|
| | 18. Awgrymwyd y gallai cynyddu gwerth yr isafbris uned o bosibl gynyddu'r effaith gadarnhaol ar yfed alcohol a'r niwed cysylltiedig. Pe bai opsiwn i newid yr isafbris uned o 50c, beth fyddech chi'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei wneud? | • Uwch, is, yr un fath, cael gwared<br>• Pa bris fyddech chi'n ei argymell?<br>• Pam ydych chi'n teimlo fel hyn? |
| | 19. Pa bethau y dylai LlC eu gwneud i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru? | • Yn gysylltiedig ag IA (ei wella/newid mewn rhyw ffordd)<br>• Mentrau eraill |
| **Sylwadau terfynol** | 20. A oes unrhyw beth arall a allai fod yn berthnasol i'n hastudiaeth ar IA yn eich barn chi? | |

Diolch yn fawr am eich amser.

[Cyn diffodd yr offer recordio, gwiriwch eu bod yn hapus gyda'u profiad a diolchwch iddynt am eu cyfraniad dros gyfnod yr astudiaeth. Ar ôl diffodd yr offer recordio, gwiriwch fod gennych y cyfeiriad post cywir.]

# 7. Pynciau'r holiadur

1. Rhaglith a thaflen wybodaeth
2. Rhai cwestiynau amdanoch chi (rhyw, grŵp ethnig, ardal Awdurdod Lleol, math o ardal, oedran, statws priodasol, nifer y plant dan 17 oed, cymwysterau, cyflogaeth, incwm cartref, statws tai)
3. Rhai cwestiynau am ansawdd eich bywyd (boddhad, gwerth chweil, hapus, pryderus)
4. Rhai cwestiynau ar eich defnydd arferol o alcohol (pa mor aml, faint o unedau, yr effaith ar eich bywyd)
5. Rhai cwestiynau ar driniaeth camddefnyddio sylweddau
6. Rhai cwestiynau ar ymwybyddiaeth o weithrediad IA (h.y. ymwybyddiaeth o newidiadau mewn prisiau neu argaeledd cynnyrch)
7. Rhai cwestiynau am newidiadau yn eich defnydd o alcohol ac ymddygiadau cysylltiedig ers mis Mawrth 2020 (e.e. newidiadau mewn cyfaint, amlder, math, brand, o ble rydych chi'n prynu, faint rydych chi'n ei wario, sut rydych chi'n ariannu eich defnydd, ble rydych chi'n yfed, pwy rydych chi'n ei yfed gyda, defnydd o ddiodydd di-alcohol/alcohol isel
8. Rhai cwestiynau am y ffactorau pwysicaf a achosodd unrhyw newidiadau
9. Rhai cwestiynau ar eich defnydd o gyffuriau eraill (cyffuriau anghyfreithlon, cyffuriau presgripsiwn nad ydynt wedi'u rhagnodi i chi, meddyginiaethau dros y cownter, bwyd, diodydd di-alcohol, alcohol di-ddiod)
10. Rhai cwestiynau am effeithiolrwydd IA a'ch barn ar ei ddyfodol yng Nghymru
11. Rhai cwestiynau ar yr hyn y credwch y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i wneud IA yn fwy effeithiol a sut arall y gallent leihau niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru
12. Unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am IA.